# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 21 MAWRTH 2019

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Freya Bentham, Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Huw Wyn Jones, Cai Larsen, Dewi Roberts, Elfed Roberts, Mair Rowlands, Cemlyn Williams a Gareth Williams.

**Aelod Cyfetholedig**: Dilwyn Elis Hughes (UCAC).

**Aelod Ex-officio:** Y Cynghorydd Edgar Owen.

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:**
Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Ffion Edwards Ellis (Uwch Reolwr ADY a Chynhwysiad)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6 isod:**
Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Debbie A.W.Jones (Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)
Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion)
Diane Jones (Swyddog Addysg Ardal Gwynedd)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7 isod:**
Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Debbie A.W.Jones (Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)
Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion)
Diane Jones (Swyddog Addysg Ardal Gwynedd)
Ffion Edwards Ellis (Uwch Reolwr ADY a Chynhwysiad)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8 isod:**
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor)
Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 9 isod:**
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi)
Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned)
Hugh Edwin Jones (Rheolwr Digwyddiadau)

Croesawyd y Cynghorydd Dewi Roberts i'w gyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Cemlyn Williams ar ei rôl newydd fel Aelod Cabinet Addysg o fis Ebrill ymlaen. Diolchwyd i'r Aelod Cabinet Addysg presennol, y Cynghorydd Gareth Thomas, am ei gydweithrediad parod dros y blynyddoedd diwethaf a dymunwyd yn dda iddo yn ei rôl newydd fel Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned. Diolchwyd hefyd i'r Aelod Cabinet Datblygu'r

Economi presennol, y Cynghorydd Ioan Thomas, a dymunwyd yn dda iddo yntau yn ei rôl newydd fel Aelod Cabinet Cyllid.

Diolchodd yr Aelodau Cabinet presennol i'r staff am eu holl gefnogaeth ar hyd y blynyddoedd.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths a Dewi Owen.
Dylan Davies (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd), Anest Gray Frazer (yr Eglwys yng Nghymru) a David Healey (ATL)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3 MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2019 fel rhai cywir.

## 5. YMGYNGHORIAD AR Y COD DRAFFT ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R RHEOLIADAU ARFAETHEDIG

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn crynhoi prif egwyddorion y Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol, y gwaith cynllunio ar gyfer y newidiadau a'r risgiau i'r awdurdod.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynhowyd prif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod y pwyllgor yn gwerthfawrogi'r adroddiad cynhwysfawr a baratowyd gan yr Uwch Reolwr ADY a Chynhwysiad mewn ymateb i'r ymgynghoriad.
- Er gwaethaf honiad y Llywodraeth y byddai'r newidiadau'n gost-niwtral, bod y pwyllgor yn llwyr dderbyn yr eglurhad a roddwyd gan yr Uwch Reolwr ADY a Chynhwysiad, ac a ategwyd gan y Pennaeth Addysg, nad yw'n gost-niwtral, yn enwedig o ystyried bod yr oedran yn cael ei ymestyn o 0-25, ac yn cynnwys plant cyn ysgol a phobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol.
- Bod yna bryder ynglŷn â chapasiti, nid yn unig yn nhermau'r costau ychwanegol, ond hefyd o safbwynt nifer y staff â'r arbenigedd ac adnoddau digonol, ac ati.
- Bod pryder hefyd wedi'i fynegi, yn enwedig o ochr yr undebau, ond gan yr Adran hefyd, ynglŷn â'r pwysau gwaith ar gydlynwyr, o ystyried mai'r pennaeth yw'r cydlynydd sy'n gwneud y gwaith ychwanegol mewn nifer o ysgolion bychain.
- Bod yr aelodau'n cyd-weld â'r cyfeiriad o safbwynt ymyrraeth gynnar gan fod hynny'n gwella'r sefyllfa i'r plentyn ac yn sicrhau ymdrin â phroblemau'n gynnar.
- Bod pryder wedi'i fynegi ynglŷn â'r Tribiwnlysoedd Addysg a rhaid sicrhau a pharhau i adolygu'r gefnogaeth i'r cydlynwyr, ac roedd hwyluso materion yn electroneg am fod o gymorth yn hyn o beth.
- Bod rhaid sicrhau bod cydweithio'n digwydd, yn enwedig gyda'r Bwrdd Iechyd, gan sicrhau eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau. Mynegwyd pryder nad oedd

swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig wedi ei benodi eto gan fod hon yn swydd strategol ac allweddol.
- Bod angen cyfarch y diffyg seicolegwyr addysg sy'n gallu gwneud y gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Mynegwyd pryder nad oedd digon ohonynt yn cael eu hyfforddi ym Mhrifysgol Caerdydd ar hyn o bryd ac awgrymwyd y dylid cysylltu â Phrifysgol Bangor i geisio annog myfyrwyr Seicoleg Cymraeg i ystyried gyrfa fel seicolegwyr addysg.
- Nodwyd y gofynion ychwanegol ar yr awdurdod o safbwynt plant mewn ysgolion annibynnol, ac yn enwedig plant sy'n derbyn addysg gartref, gan ei bod yn anodd eu cyrraedd.
- Bod yr aelodau'n rhannu pryderon y Gwasanaeth ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig ac yn cefnogi'r swyddogion yn eu hymdrech i gyflwyno safbwynt y pwyllgor i'r Cynulliad.
- Bod yna bryderon y byddai'r newidiadau, o bosib', yn mynd yn groes i'r hyn oedd yn cael ei wneud yng Ngwynedd, a mawr hyderid bod modd dod o hyd i ryw lwybr yn y canol sy'n dderbyniol gan bawb.

## 6. SWYDDFEYDD ADDYSG ARDAL – PROSIECTAU LLEIHAU BAICH

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn gwahodd sylwadau'r pwyllgor ar:-

- Gyfeiriad y Swyddfeydd Addysg Ardal o 2019/19 ymlaen;
- Y diffiniad o bwrpas addysg yng nghyd-destun Ffordd Gwynedd;
- Y prosiectau lleihau baich gwaith penaethiaid.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynhowyd prif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Croesawyd bod cefnogaeth yn parhau i adnabod ffyrdd o leihau'r baich ar y penaethiaid, a heriwyd oes yna lefydd eraill lle gellir gwella neu leihau'r baich ymhellach.
- Bod her ariannol i sicrhau bod trefniadau'r swyddfeydd ardal yn hunangynhaliol, ond roedd yr Adran yn ffyddiog y gellid sicrhau hynny.
- Ei bod yn ymddangos bod ychydig o aneglurder ynghylch rôl y Byrddau Craffu Addysg ardal ar hyn o bryd, a bod lle i wella ar hynny a gwella dealltwriaeth yr aelodau o hynny.
- Bod angen adroddiad cyfansawdd ar y prif negeseuon, ymatebion yr Awdurdod a pha wahaniaeth roedd y Byrddau Craffu Addysg Ardal yn wneud.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL ADDYSG 2017-18

Cyflwynwyd - adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn amgáu Adroddiad Blynyddol Addysg 2017/18.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynhowyd prif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod yr Adroddiad Blynyddol yn galluogi i'r aelodau gael diweddariad ar nifer o eitemau a chael craffu beth sy'n digwydd ym meysydd ADY, TRAC ac iaith, a safonau i raddau, a mynegwyd gobaith y byddai mwy o wybodaeth ar gael ar hynny'r flwyddyn nesaf.

- Bod craffu cyrhaeddiad yn eithriadol anodd ar hyn o bryd a holwyd oedd lle i alluogi aelodau'r pwyllgor craffu i gael mwy o wybodaeth er mwyn gallu craffu a chraffu fod ymyrraeth briodol yn cael ei roi gan yr Awdurdod trwy GwE?

## 8. CAIS CYNLLUN TWF AR GYFER GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad yr Arweinydd yn rhoi diweddariad ar y Cynllun Twf i Ogledd Cymru ac yn cyflwyno'r Cynllun Gweithredu Drafft.

Ymhelaethodd yr Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynhowyd prif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Gwerthfawrogwyd bod y gwaith yn symud yn ei flaen a chroesawyd y cyfle i herio o safbwynt yr Awdurdod i sicrhau atebolrwydd i Wynedd.
- Cafwyd dealltwriaeth o'r sefyllfa gyfredol o ran y corff atebol, a bod y rôl hon gan Wynedd ar hyn o bryd. Gan hynny, roedd modd sicrhau bod egwyddorion Gwynedd e.e. trefniadau caffael a chadw'r budd yn lleol yn derbyn sylw.
- Y gwelwyd bod y rhaglen yn uchelgeisiol. Awgrymwyd efallai bod lle i ymgysylltu'n well gyda phrosiectau sydd wedi methu yn ddiweddar a bod lle hefyd i geisio denu arian y tu hwnt i'r Cynllun TWF, e.e. prosiect morlyn ar draws arfordir y Gogledd.
- Bod angen cysylltu Rhwydwaith Seren gyda'r math o gynlluniau a'r math o ofynion / sgiliau sy'n dod o'r cynlluniau yma er mwyn dod â'r byd busnes a'r byd addysg yn agosach at ei gilydd.
- Bod angen eglurder ynghylch sut i sicrhau arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chronfeydd eraill ar gyfer prosiectau llai / eraill i'r dyfodol.
- Bod rhaid ymateb i Brexit, waeth beth fydd yn digwydd maes o law.
- Y mawr obeithid y byddai modd bwrw ymlaen â'r Cynllun Twf yn fuan, heb unrhyw oedi pellach, oherwydd y rhagwelid bod yna gyfleoedd cyffrous yn mynd i godi.

## 9. EFFAITH DIGWYDDIADAU YNG NGWYNEDD

Cyflwynwyd - adroddiad yr Aelod Cabinet Datblygu'r Economi yn dangos effaith y digwyddiadau a gefnogir gan y Cyngor ar Wynedd.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynhowyd prif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod yr adroddiad yn hynod ddiddorol ac yn dangos bod y £50,000 o adnoddau a ddyrannwyd i gefnogi digwyddiadau yn ystod 2019 yn mynd yn bell iawn.
- Ei bod yn galonogol iawn gweld bod digwyddiadau'n cael eu cynnal ledled y sir.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 3.00yp
(gyda thoriad o awr am ginio).